Mehefin 2024

Sefydliad Cymunedol Cymru

Pecyn Recriwtio

# Aelod Panel Grantiau

# Croeso!



Ni yw Sefydliad Cymunedol Cymru ac rydyn ni yma i ysbrydoli pobl i roi, helpu cymunedau Cymru i ffynnu a newid bywydau gyda'n gilydd.

Rydym wedi rhoi dros £35m i bobl a grwpiau cymunedol ledled Cymru er 1999 – stori lwyddiannus.

Rydym wedi tyfu dros y 24 mlynedd diwethaf ac erbyn hyn mae gennym gynlluniau mawr ar gyfer datblygu ymhellach, drwy annog mwy o ddyngarwch a rhoi yng Nghymru, fel y gallwn gryfhau ymhellach y gefnogaeth a roddwn i gymunedau ac elusennau lleol.

O ran grantiau, llwyddwyd i roi £2.6m o gyllid y llynedd, i dros 500 o grwpiau ac unigolion. Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn derbyn incwm o'i gronfa waddol, sydd bellach yn gyfanswm o £21m, a hefyd drwy ddarparu gwasanaethau rhaglenni grant ledled Cymru.

Nawr rydyn ni'n chwilio am aelodau panel gwirfoddol i ymuno â'n tîm gwych – ac i'n helpu i barhau i dyfu er mwyn gallu newid mwy o fywydau ledled Cymru.

Dyma'r amser perffaith i ymuno â ni. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi creu partneriaeth gyllido newydd gref gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality i helpu gwella iechyd a lles a meithrin sgiliau a thalent cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym hefyd wedi lansio dwy gronfa allweddol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru, ein Cronfa Croeso Cenedl Noddfa a'n Cronfa Costau Byw - Cymunedau Gyda'n Gilydd.  Mae hyn ochr yn ochr â dosbarthu cyllid o gynlluniau grant eraill.

Mae'r rol yma yn berffaith ar gyfer rhywun sydd eisiau gwneud gwahaniaeth i bobl yng Nghymru. Mae'n gyfle gwych i rywun sy'n chwilio am hyblygrwydd rhwng cydbwyso bywyd a gwaith ac sy'n gallu bod yn hyblyg eu hunain.

Rydym yn chwilio ac yn annog ceisiadau gan amrywiaeth eang o ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd a lleiafrifoedd sy'n cael eu tangynrychioli.

Rydym eisiau bod mor hygyrch â phosibl a byddem yn croesawu ymholiadau ynghylch y swydd ac i drafod eich pryderon pe bai hynny o gymorth.  Cysylltwch â'r tîm grantiau ar 02920 379 580 neu anfonwch e-bost i grants@communityfoundationwales.org.uk.

Rydym yn dilyn proses recriwtio deg ac agored sy'n chwalu'r rhwystrau rhag penodi pobl talentog o gefndiroedd a chymunedau amrywiol drwy ddileu unrhyw ddata o'r broses llunio rhestr fer a allai ddatgelu hunaniaeth ymgeisydd.

Mae ein gwaith casglu data cydraddoldeb yn ddienw a dim ond er mwyn i ni asesu ein cyrhaeddiad y byddwn yn ei ddefnyddio yn hytrach nag er mwyn cyfrannu at y broses recriwtio.

Drwy'r pecyn hwn, rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau dysgu ychydig amdanom ni a'r gwaith pwysig sy'n digwydd yma a'ch bod yn teimlo mai ni yw'r math o sefydliad yr hoffech fod yn rhan ohono, i helpu i sbarduno ein twf yn y dyfodol.

Gobeithiwn glywed gennych yn fuan.

*Richard Williams*

**Richard Williams**
**Prif Weithredwr, Sefydliad Cymunedol Cymru**







# Ein cefndir

Rydyn ni'n ysbrydoli pobl i roi, i helpu cymunedau yng Nghymru i ffynnu a newid bywydau gyda'n gilydd.

Ers dros ugain mlynedd, mae Sefydliad Cymunedol Cymru wedi bod yn cefnogi elusennau a grwpiau cymunedol gyda chyllid i gryfhau cymunedau ledled Cymru.

Gan weithio gyda'n cefnogwyr a'n partneriaid hael, rydym yn canfod ac yn ariannu prosiectau lleol sy'n helpu i gryfhau cymunedau ledled Cymru. Mae ein partneriaethau yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o anghenion y gymuned sydd, yn ei dro, yn ein helpu i lunio cronfeydd a chynghori ein rhoddwyr i sicrhau ein bod yn rhoi mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

Rydym yn cofnodi ac yn rhannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu o'n gwaith dyngarol a'n gwaith dyrannu grantiau er mwyn cyfrannu at ein datblygiad parhaus a dylanwadu ar eraill mewn sefyllfa i wneud gwahaniaeth.

Mae dros 42,000 o grwpiau cymunedol ac elusennau yng Nghymru yn gweithio i wella a datblygu eu cymunedau, gan ddefnyddio eu mentergarwch i ddiwallu anghenion lleol. Mae'r grwpiau a'r elusennau hyn yn deall yr heriau sy'n wynebu pobl yn eu cymuned ac yn gwybod beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

Mae'r gwaith hanfodol hwn yn aml yn cael ei wneud ar sail cyllideb fach neu wirfoddol, felly rydyn ni'n canolbwyntio ar ddod o hyd i'r prosiectau a'r sefydliadau gwych hyn, gan ddeall beth maen nhw'n ceisio'i gyflawni a'u cefnogi i wneud hynny.







# Ein Gwerthoedd

Rydym yn sefydliad sy'n seiliedig ar werthoedd. Mae ein gwerthoedd wedi deillio o'n tîm, yn siapio sut rydyn ni'n gweithio ac wedi eu gwreiddio ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

### Rydym yn bartneriaid da

- Rydyn ni'n parchu ac yn gwerthfawrogi ein partneriaid, boed hwy yn rhan o'n staff a'n tîm ymddiriedolwyr, rhoddwyr, cefnogwyr a'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw.
- Rydym yn deall bod partneriaeth yn ein gwneud yn gryfach ac yn ein helpu i gyflawni mwy.
- Rydyn ni'n gwrando ac yn defnyddio ein sgiliau a'n harbenigedd i helpu pobl i wneud penderfyniadau gwych a sicrhau canlyniadau.


### Mae'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn bwysig i ni

- Rydyn ni'n gynnes, yn ofalgar ac yn ystyriol.
- Rydyn ni'n gweithredu'n ddiffuant.
- Rydym yn gwneud ein gorau glas dros bobl yng Nghymru.

### Rydym yn gwneud gwahaniaeth

- Rydym wedi ymrwymo i wella bywydau yng Nghymru.
- Rydyn ni'n rhoi cynnig ar bethau newydd, rydyn ni'n datrys problemau ac rydyn ni'n dysgu.
- Rydym yn rhagweithiol ac yn uchelgeisiol.

# Ein gwaith ariannu



Cefnogi pobl ifanc ac addysg




Meithrin treftadaeth a diwylliant




Diogelu ein hamgylchedd



Gwella iechyd meddwl a chorfforol



Hyder a chydlyniad cymunedol



Pobl yn ceisio lloches

# Sut brofiad yw gwirfoddoli gyda ni?



Cefais y fraint o fod yn aelod o banel Cronfa Costau Byw Sefydliad Cymunedol Cymru. Cynhaliwyd y panel yn rhithiol, felly roeddwn i'n gallu cymryd rhan o Ogledd Cymru. Mae'n bwysig cael cynrychiolaeth o bob rhan o Gymru, fel y gellir defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol.

**Joanne Jones, aelod panel y Gronfa Costau Byw**



Mae'r cyfle i gyfrannu at fenter y Gronfa Costau Byw, mynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil costau byw cynyddol, wedi bod yn agoriad llygad ac yn bleser.

**Deena Abawi, aelod panel y Gronfa Costau Byw**



Wrth adolygu'r nifer helaeth o geisiadau gan sefydliadau llawr gwlad ledled Cymru, roeddwn yn teimlo'n falch ac yn awchus i weld gwaith mor anhygoel yn digwydd mewn cymunedau ledled Cymru. Roedd cymryd rhan yn y broses yn syml iawn ac roedd yn bleser gweithio gyda'r tîm yn Sefydliad Cymunedol Cymru.

**Beth Thomas, aelod panel y Gronfa Costau Byw**

# Ynglŷn â'r swydd

Mae dod yn aelod panel gyda Sefydliad Cymunedol Cymru yn cynnig cyfle gwirfoddoli gwerth chweil a'r cyfle i ymwneud â phroses gwneud penderfyniadau all gael effaith go iawn.

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr, yn enwedig y rhai gyda phrofiad o weithio yn y sector gwirfoddol a thrydydd sector, i'n cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch dosbarthu cyllid.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac mae gennym ddiddordeb mewn clywed gan bobl o gefndiroedd â nodwedd warchodedig a'r rhai sydd â phrofiad go iawn, yn ogystal â phobl ieuengach i'n cynorthwyo i gynrychioli Cymru yn well.

Gall aelodau panel ddod o unrhyw fath o gefndir. Mewn gwirionedd, y mwyaf amrywiol yw'r Panel, y mwyaf cynrychioladol y bydd o'n cymunedau lleol.
Disgwylir i bob aelod panel:

- allu arddangos gwybodaeth ymarferol o'u maes a diddordeb gwirioneddol yn y sector elusennol.
- graffu ar geisiadau grant sydd wedi eu hasesu gan y tîm rheoli grant y Sefydliad.
- gymhwyso eu profiad, arbenigedd a gwybodaeth i gefnogi gwaith y Panel.
- sicrhau cysondeb penderfyniadau yn erbyn prosesau a meini prawf a gymeradwywyd gan y Bwrdd.
- gynnal cyfrinachedd llwyr ynghylch unrhyw wybodaeth sensitif a dderbyniwyd wrth gynnal dyletswyddau fel Aelod Panel.
- gael empathi â gweledigaeth a nodau'r Sefydliad a ffordd o weithio sy'n arddangos hyn.
- gymryd rhan weithredol mewn trafodaethau a herio'n adeiladol ond yn sensitif a pharchus o farn Aelodau Panel eraill.
- gallu dod i argymhelliad consensws lle bynnag fo'n bosibl.

Bydd cymorth aelodau panel grant yn ein galluogi i adeiladu cymunedau cryfach yng Nghymru drwy sicrhau bod ein buddsoddiadau grant yn cael eu gwneud yn ddoeth ac yn cael eu harwain gan bobl leol yn ogystal â'r rhai â phrofiad mewn materion penodol. Bydd eu gwybodaeth yn ein galluogi i wneud penderfyniadau grant gwell a mwy gwybodus.

Pwrpas panel grant, lle bo'n berthnasol, yw cynorthwyo i hyrwyddo'r gronfa er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf i'r gymuned a/neu wneud awgrymiadau ar gyflwyno grantiau i Fwrdd y Sefydliad gael gwneud penderfyniad terfynol yn seiliedig ar brofiad personol, arbenigedd a gwybodaeth leol.

Mae Paneli Grantiau yn hanfodol i'n gwaith gan eu bod yn ein cynorthwyo i gyflawni ein gwerthoedd mewn modd sy'n gydweithredol, tryloyw ac atebol i'r cymunedau a wasanaethwn.

## Amlder ac amser y cyfarfodydd

Mae rhai cyfarfodydd panel grant ar gyfer prosiectau unigol, a fydd yn cyfarfod unwaith yn unig. Bydd eraill yn cyfarfod unwaith neu ddwy y flwyddyn yn dibynnu ar y swm o arian sydd ar gael i'w ddosbarthu a'r galw am gyllid. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau lleol addas neu'n rhithiol drwy Microsoft Teams neu Zoom.

Lle mae paneli'n cwrdd yn amlach, gwahoddir aelodau i wasanaethu am gyfnod o dair blynedd yn gyntaf, ond fe all hyn gael ei adnewyddu'n amhenodol.

## Cyfrifoldebau aelodau

Mae pob aelod panel yn gyfrifol am:

- Adolygu ceisiadau grant cyn y cyfarfod a bwrw pleidlais ar-lein ar gyfer pob prosiect cyn y cyfarfod.
- Dod â gwybodaeth leol ac arbenigedd all fod yn berthnasol i wneud penderfyniad (e.e. gwybodaeth am sefydliad yr ymgeisydd, cyngor ar y cyd-destun cyllido, sefydliadau/mentrau tebyg eraill sy'n gweithredu'n lleol)
- Cwblhau Ffurflen Datgan Buddiannau, a datgan buddiant mewn unrhyw gyfarfod y gall o neu hi fod â budd yn unrhyw un o'r ceisiadau grant
- Osgoi defnydd o ragfarn ddiarwybod a bod yn barod i herio eraill a chael eu herio, lle gall safbwyntiau amrywio.
- Adolygu unrhyw awgrymiadau a wneir gan staff grantiau'r Sefydliad
- Sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gadw tu hwnt i'r cyfarfodydd panel. Rhennir yr holl awgrymiadau ag ymgeiswyr maes o law. Nid rôl aelodau panel yw rhannu deilliannau'r penderfyniadau cyn iddynt gael eu hysbysu gan SCC.
- Ymrwymo i fynychu cyfarfodydd panel yn rheolaidd, neu roi rhybudd addas os nad oes modd mynychu. Bydd yn ofynnol i aelodau panel sy'n methu mynychu 3 chyfarfod panel yn olynol heb roi rhybudd i'r tîm grant gamu'n ôl.
- Mynychu unrhyw hyfforddiant perthnasol i swydd yr aelod panel fel bo'r angen.
- Derbyn gwahoddiadau gan y Sefydliad a/neu fuddiolwyr, lle y dymunir, i fynychu digwyddiadau a dathliadau dyfarnu grant.

# Cyfrifoldebau Sefydliad Cymunedol Cymru

Bydd y Sefydliad yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod yr holl aelodau panel yn derbyn hyfforddiant cynefino ac unrhyw hyfforddiant pellach angenrheidiol i gyflawni eu rôl fel aelod panel.
- Gweinyddu a chynorthwyo'r Panel grantiau yn cynnwys trefnu cyfarfodydd panel a chadw cofnodion/argymhellion.
- Cynnal diwydrwydd dyladwy ac asesu'r holl geisiadau grant.
- Cofnodi Datganiadau o Gysylltiad aelodau panel a sicrhau bod protocol yn cael ei ddilyn parthed derbyn gwybodaeth panel a chymryd rhan yn y cyfarfod.
- Sicrhau bod rhagfarn ddiarwybod ddim yn effeithio ar argymhellion i roi cyllid neu beidio, er mwyn sicrhau proses deg.
- Sicrhau bod paneli â chworwm. Dylai o leiaf 3 aelod fynychu pob panel.
- Cadw cofnod presenoldeb aelodau panel.
- Rhoi gwybod i'r holl ymgeiswyr grant am ganlyniad eu cais yn cynnwys adborth adeiladol i ymgeiswyr aflwyddiannus.
- Monitro'r grantiau llwyddiannus a roddwyd o'r Gronfa.
- Adrodd ar y gwahaniaeth mae'r Gronfa wedi ei wneud.

# Treuliau

Byddwn yn ad-dalu unrhyw gostau rhesymol tra buoch yn aelod panel.

Mae'r egwyddorion canlynol yn darparu cyd-destun i'r polisi treuliau:

- Mae gwerth am arian yn ystyriaeth allweddol: dylid cymryd y dewis rhataf lle bynnag fo'n bosibl ac ymarferol.
- Mae cynorthwyo cynaliadwyedd amgylcheddol o werth.
- Ni ddylai aelodau panel fod ar eu colled o ganlyniad i gefnogi'r Sefydliad: disgwylir i dreuliau dilys a phriodol tra ar fusnes y Sefydliad gael eu hawlio ac maent wedi eu cynnwys yn ein cyllidebau blynyddol.
- Mae parchu a chefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn werth sy'n sail i'r polisi.
- Mae diogelwch personol ac ystyriaethau llesiant yn hollbwysig.